MENTER IAITH
BRO MORGANNWG

# MENTER BRO MORGANNWG
# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

heritage
treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Croeso i adroddiad blynyddol Menter Iaith Bro Morgannwg 2016. Cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl y Fro fedru cwrdd, dysgu a chymdeithasu drwy'r Gymraeg a chodi proffil yr iaith o fewn y Sir yw'r nod a bu'n flwyddyn arall brysur a chynhyrchol.

O wersi nofio, clybiau gymnasteg a sesiynau stori i blant, i gigs a chyfarfodydd dysgwyr i oedolion, mae'r Fenter yn cynnig ystod eang o gyfleoedd. Profodd Gŵyl Fach y Fro yn llwyddiant ysgubol ym mis Mehefin yn dod ag adloniant cyfrwng Cymraeg i bawb ei fwynhau ar Ynys y Barri, gyda pherfformiadau a chyfraniadau gan holl ysgolion Cymraeg y Fro.

Ond does dim gorffwys ar y rhwyfau ac mae'r Fenter yn gyson yn chwilio a datblygu cyfleoedd newydd i hyrwyddo'r iaith. Un cam pwysig i'w groesawu yn ystod 2016 oedd sicrhau cytundeb fframwaith newydd gyda Chyngor Bro Morgannwg i ddatblygu gwasanaethau newydd i gryfhau'r iaith Gymraeg yng nhymunedau'r Fro. Roedd yn gydnabyddiaeth ffurfiol o'r gwaith partneriaeth oedd eisoes yn digwydd ac yn ymrwymiad i barhau â'r gwaith hwnnw. Hoffwn ddiolch i Swyddogion y Cyngor a Chynghorwyr Sir am eu cydweithrediad yn ystod y flwyddyn.

Diolch hefyd i aelodau'r Bwrdd Rheoli am eu cyfraniadau a'u presenoldeb, i Lywodraeth Cymru, Cyngor Bro Morgannwg, Cronfa'r Loteri Fawr a Chyngor Celfyddydau Cymru am ariannu prosiectau, ac yn bennaf oll i Ffion Rhisiart a Siân Lewis a staff y Fenter am flwyddyn arall o waith diflino. Ymlaen i 2017!

**Gwenllian Grigg**
**Cadeirydd, Menter Bro Morgannwg**





# CEFNDIR Y FENTER




Sefydlwyd Menter Bro Morgannwg ym mis Ionawr 2014, gyda'r nod o hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg. Mae'r mudiad yn gymharol ifanc gydag 1 aelod o staff llawn amser a 4 aelodau o staff sy'n cynorthwyo gyda'r gwaith ar y cyd gyda'u swyddogaethau i Fenter Caerdydd. Prif nod y Fenter yw darparu profiadau gwerthfawr a chyfleoedd apelgar i blant, pobl ifanc ac oedolion wneud defnydd o'r iaith Gymraeg y tu allan i oriau ysgol ac oriau gwaith. Yn ogystal â hyn ein bwriad ydy gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Bro Morgannwg a nifer o bartneriaid Cymraeg a di-Gymraeg eraill yr ardal er mwyn codi statws yr iaith o fewn y Sir.

Gwelwyd twf rhwng 2001 a 2011 yn y nifer o siaradwyr Cymraeg sy'n byw ym Mro Morgannwg, gyda 11% o boblogaeth y Sir erbyn hyn yn siarad Cymraeg (14,000). Gwelwyd cynnydd a thwf aruthrol mewn addysg Gymraeg yn yr ardal dros yr ugain mlynedd diwethaf, ac erbyn heddiw mae 7 ysgol cynradd ac un ysgol gyfun Gymraeg yn y Sir.

Mae gwasanaethau presennol y Fenter yn adlewyrchu anghenion ein cwsmeriaid; yn deuluoedd, plant, oedolion, dysgwyr a'r di-Gymraeg. Rydym yn rhyngweithio'n rheolaidd gyda'n cwsmeriaid er mwyn sicrhau bod llais y cwsmer yn allweddol wrth i ni gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gwaith yn parhau i adlewyrchu anghenion cymunedau Cymraeg a dysgwyr y Fro ac rydym wedi sefydlu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol sydd yn ein caniatau i fesur a rheoli ein perfformiad yn gywir.

Rydym wedi sefydlu a'n arwain Fforwm Iaith Gymraeg Bro Morgannwg ers 2013, er mwyn dod â mudiadau a chymdeithasau sy'n gweithredu drwy'r iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg at ei gilydd; i adrodd nôl am eu maes gwaith, rhannu syniadau am arfer da ac ystyried cyfleoedd i gyd-weithio. Mae Fforwm Iaith Bro Morgannwg yn cynnwys cynrychiolwyr o Ysgolion Cyfrwng Cymraeg y Sir, Urdd Gobaith Cymru, Cymraeg i Blant, Cymraeg i Oedolion, Merched y Wawr, Coleg Caerdydd a'r Fro, Mudiad Meithrin a Chynrychiolwyr o Gymdeithasau'r Fro.


Ffurfiwyd hefyd Fwrdd Rheoli, sy'n cynnwys 15 o aelodau a 10 ohonynt yn Gyfarwyddwyr y Cwmni, ac mae'r Bwrdd yn cwrdd 6 gwaith y flwyddyn i drafod datblygiadau'r Fenter. Bydd ein Bwrdd Rheoli yn parhau i graffu ein gwaith a darparu dull llywodraethu cadarn er mwyn sicrhau bod Menter Bro Morgannwg yn creu gwasanaethau yn addas i'r diben, a'n bod yn parhau i fod mewn sefyllfa gref i gynnal ein gwasanaethau'n llwyddiannus.

**Hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol ym Mro Morgannwg, gan sicrhau bod yr iaith yn dod yn rhan ganolog o fywyd yn y Fro, a bod pob trigolyn yn rhannu'r cyfrifoldeb am ei dyfodol a'i ffyniant.**

# INCWM

Rydym wedi gweld cynnydd o 227% yn incwm y Fenter rhwng 2013/14 a 2016/17, ac mae disgwyl i'r incwm gynyddu eto erbyn y flwyddyn ariannol ganlynol. Yn 2015/16, derbyniom ni grant o £60,000 gan Lywodraeth Cymru, ac mae gweddill ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol honno wedi dod o ffioedd gweithgareddau ac o geisio am grantiau allanol. Mae'r grantiau yma ar gyfer cynnal prosiectau fel Gŵyl Fach y Fro, Cyrsiau Hamdden, Gweithgareddau Teulu a Gwasanaeth Gofal Gwyliau Cymraeg.

# INCWM MENTER BRO MORGANNWG



# SWYDDOGION

| | |
|---|---|
| **Siân Lewis** | Prif Weithredwr |
| **Ffion Rhisiart** | Swyddog Datblygu |
| **Leah Dafydd** | Swyddog Gofal a Theulu |
| **Llinos Williams** | Swyddog Tafwyl |
| **Nia Donnelly** | Swyddog Cyllid |

Mae nifer o staff Menter Bro Morgannwg yn staff craidd Menter Caerdydd sy'n rhannu eu hamser er mwyn creu gwasanaethau yn y Fro.

# CYTUNDEB NEWYDD RHWNG Y FENTER A CHYNGOR BRO MORGANNWG

Wedi dros 18 mis o gyfarfodydd a thrafodaethau cyson, cafwyd cadarnhad ym mis Hydref 2016 y bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cynnig £34,000 o arian cyfatebol ar gytundeb 3 mlynedd i Fenter Bro Morgannwg. Prif nod y cytundeb yw i hybu defnydd cymdeithasol o'r iaith Gymraeg yn y Sir, a chryfhau safle'r Gymraeg yng nghymunedau'r Fro. Dyma'r tro cyntaf yn hanes y Gymraeg yn y Fro i'r Cyngor Sir gynnig cyllid a chynllun strategol i gefnogi'r Gymraeg ar lefel gymdeithasol. Mae'r meysydd targed o fewn y Fframwaith newydd yma'n cynnwys;

- Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Gofal Plant a Darpariaeth Gwyliau Ysgol
- Datblygu Chwaraeon a Chwarae

Rydym eisoes wedi dechrau ar y gwaith o ymchwilio, ymgynghori a chynllunio, ac fe fydd y gweithgareddau newydd yn dechrau yn fuan yn 2017. Mae manylion pellach am dargedau'r Fframwaith a'n cynlluniau ar gyfer rhaglen 2017 o dan y penawdau unigol.

**"Bydd y cytundeb hwn yn cryfhau'r bartneriaeth rhwng y Cyngor a Menter Bro Morgannwg. Fel sefydliad cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Cyngor yn cydnabod yn llawn ei rôl o ran datblygu defnydd o'r iaith a'i gyfrifoldeb i gynnig amryw weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg i breswylwyr. Edrychaf ymlaen i adeiladu ar y bartneriaeth hon a mynd i'r afael â'n nod fel Cyngor i adeiladu cymunedau cryf gyda dyfodol disglair."**

**Rob Thomas, Rheolwr - Gyfarwyddwr Cyngor Bro Morgannwg**

# GŴYL FACH Y FRO

Gŵyl Fach y Fro yw gŵyl gelfyddydol Gymraeg sy'n cael ei gynnal ar Ynys y Barri yn flynyddol bellach, ac yn sicr dyma un o uchafbwyntiau mwyaf y Fenter o safbwynt datblygiadau 2016.

Sefydlwyd Gŵyl Fach y Fro yn 2015 (drwy gefnogaeth ariannol gan Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Celfyddydau Cymru) a'r nod oedd i ddathlu'r Gymraeg ym Mro Morgannwg, cynnig cyfle i drigolion Bro Morgannwg fwynhau cerddoriaeth cyfoes Cymraeg safonol ar eu stepen drws a chodi ymwybyddiaeth y gymuned ehangach o fodolaeth a gwerth y Gymraeg fel iaith fyw ym Mro Morgannwg. Roedd hwn yn ddatblygiad cyffrous iawn, a'r tro cyntaf i elfennau Cymraeg gael eu cynnwys yn rhaglen Digwyddiadau Haf Ynys y Barri (Barry Island Weekenders). Daeth dros 1,700 o bobl i'r ŵyl yn ei blwyddyn cyntaf, gan fwynhau prynhawn o adloniant cerddorol gan ddisgyblion yr ysgolion Cymraeg lleol yn ogystal â rhai o artistiaid blaenllaw y sîn gerddoriaeth Gymraeg fel Al Lewis, Kizzy Crawford a Kookamunga.

Erbyn 2016 roeddwn yn awyddus i ddatblygu a thyfu'r ŵyl ymhellach, gan sicrhau bod mwy o weithgareddau ac atyniadau yn rhan o'r digwyddiad. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr i'r ŵyl yn ei ail blwyddyn, gyda dros 3,200 o bobl wedi dod i fwynhau'r ŵyl rhad ac am ddim yma ar ddydd Sadwrn Mehefin 18fed 2016.

Ymysg yr elfennau newydd roedd stondinau bwyd Ffwrnes Pizza a Slow Pig, bar yn gwerthu amrywiaeth o ddiodydd gan gynnwys cwrw lleol Tomos & Lilford, artistiaid bybls Dr Zigs, a gweithdai i blant gan NoFit State ac Adran Chwaraeon yr Urdd. Roedd y beach huts mawr ar lan y promenâd yn gartref i stondinau gan gynhyrchwyr, artistiaid a phartneriaid Cymraeg lleol - gan gynnwys Buddug, Draenog, Bwth Lluniau GuestWho, Oes Gafr Eto, Mudiad Meithrin a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Bro Morgannwg. Gwnaethom gyd-weithio hefyd gyda Cardiff Arts Collective wnaeth gydlynu bod 3 artist lleol - Kevin Mee, Michael Goode a Sera Wyn Walker - yn cynnal arddangosfeydd a gweithdai celf amrywiol yn y beach huts drwy'r prynhawn, ac fe roedd rhain yn enwedig yn boblogaidd tu hwnt.

**"Great festival! I don't speak Welsh but enjoyed the lovely warm atmosphere of Gŵyl Fach y Fro – will be back next year!"**





**"Rwy'n caru clywed cerddorieth byw Cymraeg."**

**“Llongyfarchiadau a DIOLCH am ddod â’r ŵyl i Ynys y Barri. Methu aros tan blwyddyn nesa!”**







**“Diolch am drefnu prynhawn bendigedig – roedd hi’n gyfle hyfryd i ddal lan gyda ffrindiau, ac yn bennaf oll i’r plant gael chwarae gyda’i gilydd ar y traeth mewn awyrgylch Gymreig.”**

Cafwyd cefnogaeth unwaith eto gan ysgolion Cymraeg y Sir, a phob un ohonynt wedi dod i berfformio ar y diwrnod. Hefyd yn rhan o line-up 2016 oedd Sŵnami, Meic Stevens, Sorela, Wonderbrass a dau artist Cymraeg lleol – Hanna Morgan a Lost in Chemistry (enillwyr Brwydr y Bandiau C2/Maes B 2015).

Mae digwyddiad cynhwysol fel hyn yn ffenestr siop gwych ac yn cael effaith hir-dymor ar argraffiadau plant, pobl ifanc ac oedolion o’r iaith Gymraeg yn gymunedol. Yn holiadur 2016, roedd 100% o’r ymatebwyr o’r farn bod Gŵyl Fach y Fro yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg yn y Fro.

Mae Gŵyl Fach y Fro erbyn hyn yn cael ei ystyried yn ran bwysig o Galendr Ddigwyddiadau’r Cyngor. Rydym yn parhau i gyd-weithio’n agos gyda’r Swyddog Digwyddiadau, ac mae trafodaethau eisoes ar y gweill gyda’r Cyngor a nifer o bartneriaid allweddol eraill ar gyfer flwyddyn nesaf. Nodyn i’ch dyddiadur – dydd Sadwrn Mehefin 17eg 2017!

Mae’r elfen o werthuso’r ŵyl yn bwysig iawn i ni o ran datblygu a symud ymlaen, a braf oedd clywed negeseuon positif gan rhai a fynychodd yr ŵyl eleni;

**“Roedd amrywiaeth y digwyddiad yn wych - llawer o atyniadau gwahanol ac eitemau difyr ar y llwyfan.”**

# GIGS BACH Y FRO




Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol 2012 ym Mro Morgannwg, a tipyn o ddiddordeb wedi ei ddangos a'i ddatgan yn dilyn yr Eisteddfod gan y gymuned Gymraeg tuag at greu digwyddiadau cymdeithasol lleol cyson yn y Fro yn dilyn ymadawiad yr Eisteddfod. Sefydlwyd Gigs Bach y Fro ym mis Hydref 2014 yn sgil hynny (drwy gefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru), gyda'r nod o gynnig llwyfan newydd i artistiaid mwyaf blaengar y sîn gerddoriaeth Gymraeg, a chyfle i drigolion Bro Morgannwg fwynhau cerddoriaeth cyfoes Cymraeg safonol o fewn eu cymunedau yn y Fro.

Mae Gigs Bach Y Fro yn parhau gyda chefnogaeth Cynllun Noson Allan (Cyngor Celfyddydau Cymru), a'r nod yw i gynnal 4 gig yn ystod y flwyddyn, gyda Gŵyl Fach y Fro yn binacl i'r calendr o ddigwyddiadau cerddorol ym Mro Morgannwg. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynnal nosweithiau gyda Huw Chiswell, Caryl Parry-Jones, Elin Fflur ac Iwan Huws, yn ogystal â chynnig cyfleoedd perfformio i artistiaid ifanc lleol fel Hanna Morgan.

Mae Gigs Bach y Fro wedi ymgartrefu yn ddiweddar yn y Park Hotel, Y Barri, sydd yn leoliad addas a chroesawgar iawn. Y bwriad dros y misoedd nesaf fydd i ail-gydio yn elfen teithiol y Gigs, a chynnal nosweithiau mewn lleoliadau newydd yn Llanilltud Fawr a Phenarth.











# GWEITHGAREDDAU I'R TEULU

Mae cynnig amrywiaeth o weithgareddau i deuluoedd yn rhan bwysig o wasanaeth Menter Bro Morgannwg ac yn un o dargedau Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Sefydlwyd Amser Stori yn Llyfrgelloedd Y Barri a Llanilltud Fawr ym mis Medi 2015, a thrydydd sesiwn yn Llyfrgell Y Bontfaen ym mis Mehefin 2016. Cynhelir y sesiynau stori a chân am ddim yma yn wythnosol yn ystod tymor yr ysgol, ac erbyn hyn mae dros 60 o blant a rhieni yn mynychu'r sesiynau bob wythnos.

Derbyniwyd gyllid o gronfa Arian i Bawb y Loteri yn ystod 2015/16 er mwyn treialu cyfres o weithgareddau amrywiol i blant a babanod 0-4 oed, gan gynnwys Nofio i Ddechreuwyr, Plantos Heini, Rygbi Bach, Gymnasteg Bach a Yoga Babis. Mae llawer o'n Gwasanaethau Hamdden yn cael eu trefnu ar y cyd rhwng Menter Bro Morgannwg ac Adran Chwaraeon yr Urdd. Roedd rhain hefyd yn boblogaidd tu hwnt, ac felly rydym yn falch iawn bod y Fframwaith newydd yn ein caniatâu i gynnig parhad a datblygu'r ddarpariaeth hwn ymhellach.

Rydym wedi trefnu amrywiaeth o weithgareddau hefyd sydd wedi eu hanelu at y teulu cyfan, ac wedi eu cynnal yn bennaf yn ystod gwyliau ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys Penwythnos Teulu yn Llangrannog, sesiynau chwarae Miri Meithrin a teithiau natur Wâc Welis, sydd wedi denu dros 45 o deuluoedd i ymwneud â gweithgareddau cyfrwng Cymraeg gyda'i gilydd yn ystod 2016.

Fel rhan o'r Fframwaith newydd, rydym yn bwriadu datblygu'r ddarpariaeth ganlynol i blant 0-4 oed a'u teuluoedd:

- Pedwerydd sesiwn Amser Stori yn Llyfrgell Penarth
- Clwb celf wythnosol
- Sesiynau Wâc Welis cyson
- Cyrsiau wythnosol fel Plantos Heini, Nofio i Ddechreuwyr a Tylino Babi
- Mwy o weithgareddau/digwyddiadau yn ystod Gŵyl Fach y Fro

# CYNLLUN GOFAL GWYLIAU

Fe wnaethom dderbyn cyllid o £9,000 gan Gyngor Bro Morgannwg yn 2014/15 er mwyn sefydlu darpariaeth gofal o hanner tymor Chwefror 2015 ymlaen. Mae'r ddarpariaeth bellach wedi ei gofrestru'n llawn gydag AGGCC (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru). Mae'r ddarpariaeth ar gael i bob plentyn sy'n derbyn addysg cynradd Cymraeg yn y Fro, ac yn cael ei gynnal yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn ystod pob gwyliau ysgol, ag eithrio'r Nadolig.

Rydym wedi parhau i weld cynnydd yn y nifer o blant sy'n mynychu, ac mae 665 o blant wedi mynychu ein darpariaeth Gofal Gwyliau yn ystod 2016.

Dyma'r unig ddarpariaeth gofal diwrnod cyfan cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg (8.30am-5.30pm), ac felly mae'n cynnig cyfleoedd hollbwysig i rieni barhau i weithio ac i'r plant i barhau i ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg y tu allan i dymor yr ysgol.

Rydym wedi cyflogi 12 aelod o staff dros y flwyddyn, a'n cynnig cyfleoedd hyfforddi parhaus i'r staff sy'n cynnwys Cyrsiau Sefydlu, Amddiffyn Plant, Hylendid Bwyd a Chymorth Cyntaf Paediatrig.

**"It is important for children to continue to be able to socialise through the medium of Welsh during school holidays. Care of this quality isn't easy to come by."**






**"Mae'n gret bod na cynllun Gofal Cymraeg yn y Barri."**

**“It helps working parents to know that their children are in a safe structured environment and it is through the medium of Welsh.”**





**“Staff i gyd yn lyfli, plant yn dwlu ar bawb sydd yn gweithio yno. Trefniadau ac amserlen gwych gyda digon o amrywiaeth.”**

Rydym yn gwerthuso’r gwasanaeth yn flynyddol drwy sgyrsiau wyneb yn wyneb gyda phlant a rhieni yn ogystal â holiaduron ar-lein i rieni a staff, a dyma’r adborth a gasglwyd ar ddiwedd gwyliau’r Haf 2016;

- O’r 26 o rieni a gwblhaodd yr arolwg, nododd 77% ohonynt eu bod yn cofrestru eu plant ar gyfer ein Cynllun Gofal oherwydd ymrwymiadau gwaith
- 100% o’r rhieni yn dewis ein Cynllun Gofal am ei fod yn wasanaeth Cymraeg
- 73% o’r plant sydd wedi mynychu yn dod o gartrefi di-Gymraeg
- 100% o’r rhieni yn credu bod Menter Bro Morgannwg yn cynnig gwasanaeth da a phroffesiynol

Fel rhan o’r Fframwaith newydd, rydym yn bwriadu datblygu’r ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod gwyliau ysgol gan:

- Dreialu sesiynau chwarae agored am ddim, ar draws 5 lleoliad yn ystod gwyliau’r Haf
- Ystyried y posibilrwydd o sefydlu ail Gynllun Gofal ym Mhenarth

**“Jess is an only child and we speak mostly English at home, so I feel it is very important for Jess to be able to speak Welsh through the holidays and play with other children too. I am so impressed with the care scheme the staff are so friendly and approachable and Jess is always excited to go back.”**

# CYRSIAU OEDOLION

Wedi trafodaethau gydag Adran Addysg Oedolion Cyngor Bro Morgannwg ynghylch diffyg darpariaeth o gyrsiau hamdden i oedolion, fe gytunwyd y byddai Menter Bro Morgannwg, mewn partneriaeth â'r Cyngor, yn peilota llond llaw o gyrsiau undydd. Ein prif nod oedd i gynnig amrywiaeth o weithgareddau a'u cynnal mewn nifer o wahanol ardaloedd a lleoliadau ar draws Bro Morgannwg er mwyn dysgu pa fath o gyrsiau sy'n apelio ac ymhle.

Cynhaliwyd 4 cwrs rhwng Tachwedd 2015-Ionawr 2016 sef Gweithdy Ukulele yn y Park Hotel, Y Barri; Crefftau Nadolig yn Hen Neuadd Y Bontfaen; Sesiwn Yoga yn Festri Capel Bethel, Penarth; a Darlith Hanes y Gymraeg ym Mro Morgannwg yn Hen Neuadd Y Bontfaen. Roedd yr ymateb a'r adborth a dderbyniwyd ym mhob un o'r sesiynau yma'n dda iawn, gan ddangos yn glir bod y galw yno am gyrsiau hamdden wythnosol i oedolion trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel rhan o'r Fframwaith newydd felly, rydym yn bwriadu sefydlu'r cyrsiau hamdden canlynol:

- Yoga
- Pilates
- Ukulele i Ddechreuwyr
- Cyfres o gyrsiau crefft undydd







# DYSGWYR CYMRAEG

Mae cyfanswm o 39 o ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion a Chymraeg i'r Teulu yn cael eu cynnal yn wythnosol, sy'n denu dros 300 o ddysgwyr ar draws Bro Morgannwg. Ers Awst 2016, mae rhain yn cael eu darparu gan Adran Cymraeg i Oedolion Cyngor Bro Morgannwg, sy'n rhan o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae datblygu cyfleoedd allgyrsiol yn hollbwysig er mwyn cefnogi'r broses o ddysgu ffurfiol, ac mae ffocws y Fenter ar gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a defnyddio eu Cymraeg yn gymdeithasol.

Ym mis Mehefin 2015, sefydlodd y Fenter Fore Coffi misol yn Foxy's Deli, Penarth, ac mae'r grŵp wedi ei sefydlu'n gadarn erbyn hyn gyda 15 o ddysgwyr Cymraeg o wahanol lefelau yn mynychu'n gyson.

Fel rhan o'r gwaith ymchwil a chynllunio ar gyfer y Fframwaith newydd, fe aethom ati ym mis Rhagfyr 2016 i ymweld â dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion Bro Morgannwg. Roedd yr ymweliadau yma'n werthfawr iawn er mwyn codi ymwybyddiaeth y dysgwyr o Fenter Bro Morgannwg a'n gwasanaethau, i feithrin cysylltiadau newydd, ac i holi pa fath o ddarpariaeth mae dysgwyr yn awyddus i'w gael er mwyn annog mwy o ddefnydd cymdeithasol o'r iaith y tu hwnt i'w dosbarthiadau ffurfiol.

Fel rhan o'r Fframwaith newydd, rydym yn bwriadu datblygu'r ddarpariaeth ganlynol i ddysgwyr Cymraeg:

- 'Dysgu a Diod' – sesiwn sgwrsio gyda'r nos yn yr Old White Hart, Llanilltud Fawr
- Bore Coffi newydd yn ardal y Barri
- Cwis Tafarn misol yn y Park Hotel, Y Barri



# GLAMORGAN GEM

Cafwyd dwy flynedd llwyddiannus iawn yn cydlynu a chyhoeddi tudalennau Cymraeg misol yn y Glamorgan GEM. Rydym wedi derbyn adborth gwych dros y blynyddoedd diwethaf ac yn sicr mae wedi bod yn ffordd effeithiol iawn o godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws y Sir.

Mae'n cytundeb gwreiddiol wedi dod i ben ym mis Rhagfyr 2016, ac er ein bod am barhau gyda'r bartneriaeth, fe fydd y cynnwys ychydig yn wahanol o nawr ymlaen ac yn blatfform i hyrwyddo ac adrodd nôl ar wasanaethau'r Fenter. Bydd 2 dudalen dwyieithog yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau pob tymor ysgol, gyda rhifyn arbennig ym mis Mehefin yn dilyn Gŵyl Fach y Fro.

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch yn fawr i bob un o'r cyfranwyr dros y ddwy flynedd diwethaf, sydd wedi rhoi o'u hamser yn wirfoddol i baratoi eitemau mor amrywiol a difyr. Mae rhai enghreifftiau o'r gwaith ar gael yma, a chofiwch bod modd darllen pob un o'r rhifynau Cymraeg blaenorol ar wefan y Fenter.

# GWAITH STRATEGOL

Un o brif bartneriaid y Fenter yw Cyngor Sir Bro Morgannwg a nod y Fenter yw datblygu'r berthynas hon ymhellach er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gwireddu'i ofynion statudol o ran sicrhau cyfleoedd teg drwy'r Gymraeg i drigolion Y Fro.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyfrannu at y broses o ddrafftio nifer o ddogfenau strategol gan gynnwys Cynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg 2016-19, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 a Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

Byddwn yn parhau i gyd-weithio a chyfarfod gyda Chynghorwyr ac Uwch Swyddogion yn rheolaidd i drafod cyfleoedd pellach i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg ym Mro Morgannwg, yn unol â Strategaeth Iaith fyw: iaith byw Llywodraeth Cymru.



MENTER IAITH BRO MORGANNWG

SÊR EIRY

Rhagfyr 2016

NADOLIG LLAWEN I HOLL DDARLLENWYR Y GEM

Ffilm Nadolig hudolus: Albi a Noa yn Achub yr Iwnifyrs

MERCHED Y WAWR

Mynd am Dro i Fro... gyda Dailingual

Crefftau Nadolig

Twitter: @MIBroMorgannwg • Facebook: Menter Bro Morgannwg

Ebost: ffion@menterbromorgannwg.cymru • Ffôn: (029) 20689888 • www.menterbromorgannwg.cymru



JANUARY 2016

MENTER IAITH BRO MORGANNWG

Lowri Cooke yn holi Esther Whitfield

CERDYN POST O BOSTON

CLYBIAU WYTHNOSOL I BLANT A THEULUOEDD

ANGHARAD

CYFARFOD BLYNYDDOL MENTER BRO MORGANNWG

DAI LINGUAL YN MYND AM DRO YN Y FRO...I SAIN TATHAN

GWEITHGAREDDAU TEULU TYMOR Y GWANWYN

Gweithgareddau Cyfrwng Cymraeg Cyngor Bro Morgannwg

Sesiynau Tylino Babi gyda Twf

CYRSIAU HAMDDEN I OEDOLION

Twitter: @MIBroMorgannwg • Facebook: Menter Bro Morgannwg

Ebost: ffion@menterbromorgannwg.cymru • Ffôn: (029) 20689888 • www.menterbromorgannwg.cymru



Thursday March 3rd, 2016 www.facebook.com/glamorgangem • www.twitter.com/gem_news THE GEM - 27

MENTER IAITH BRO MORGANNWG

MYND AM DRO I'R FRO GYDA DAI LINGUAL...

I'r Bontfaen

EIN COLOFNYDD NEWYDD... Jacob Dafydd Ellis

ASTROLEG A'R PASG

CYFLWYNO SWYDDOGION CHWARAEON NEWYDD Y FRO

VALEWAYS: TEITHIAU CERDDED CYMRAEG

CYMRODORION Y BARRI

GWEITHGAREDDAU TWF

PENWYTHNOS TEULU I LANGRANNOG

Twitter: @MIBroMorgannwg • Facebook: Menter Bro Morgannwg

Ebost: ffion@menterbromorgannwg.cymru • Ffôn: (029) 20689888 • www.menterbromorgannwg.cymru



26 - THE GEM www.facebook.com/glamorgangem • www.twitter.com/gem_news Thursday April 9th, 2015

MENTER IAITH BRO MORGANNWG

LLAIS LLEOL – BETHAN ELFYN

Diwrnod Cymraeg i'r Teulu

Arwyddion Ar Agor/Ar Gau

ARGYFWNG, OBSESIWN A LWC – GOLWG AR FYD MERCHED ARLOESOL

Mynd am dro yn y Fro gyda Dai Lingual

Calendr

Clybiau

Twitter: @MIBroMorgannwg • Facebook: Menter Bro Morgannwg

Ebost: ffion@menterbromorgannwg.org • Ffôn: (029) 20689888 • www.menterbromorgannwg.org

# PWYLLGOR ARDAL LLANILLTUD FAWR

Un o amcanion ein Cynllun Corfforaethol 2016-19 oedd i sefydlu Pwyllgorau Ardal ym Mro Morgannwg. Rydym yn ymwybodol bod twf wedi bod dros y blynyddoedd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Llanilltud Fawr, twf yn y nifer o wersi Cymraeg i Oedolion yn yr ardal, a sefydlu Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn 2011 yn golygu bod mwy o deuluoedd yn dewis magu eu plant yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae Llanilltud Fawr a'r cyffiniau yn ardal gydag angen i ddatblygu mwy o weithgareddau cymdeithasol Cymraeg, ac felly penderfynwyd gan Swyddogion a Bwrdd Rheoli'r Fenter i dargedu'r ardal hon fel man cychwyn ar gyfer y Pwyllgor Ardal cyntaf.

Mae sefydlu Pwyllgorau Ardal yn ran amlwg o waith y Mentrau Iaith ar draws Cymru, gyda Menter Iaith Conwy er enghraifft yn cynnal 7 o grwpiau gwahanol ar draws eu rhanbarth. Pwrpas sefydlu Pwyllgorau Ardal yw i arwain y gymuned Gymraeg i ddatblygu gwasanaethau a chefnogi'r iaith yn eu hardaloedd, gyda chefnogaeth y Fenter, felly roedden ni'n teimlo y byddai strwythur fel hyn yn addas hefyd i Fro Morgannwg gan ei fod yn Sir mor wasgaredig ac anghenion pob cymuned yn wahanol.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn gyntaf er mwyn mesur y diddordeb, meithrin cysylltiadau a dechrau ar y trafodaethau, ac fe gafwyd ymateb gwych gyda dros 20 o drigolion lleol yn mynychu. Cawsom ail gyfarfod ar yr 28ain o Dachwedd er mwyn trafod syniadau penodol a drafftio rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer 2017, a'r bwriad nawr yw i barhau i gyfarfod yn chwarterol i drefnu ymhellach.

Yn dilyn ymgynghoriad gyda dros 200 o drigolion Y Fro, fe fydd rhai o wasanaethau craidd y Fenter o fewn y Fframwaith newydd hefyd yn cael eu sefydlu yn Llanilltud Fawr, gan gynnwys clybiau chwaraeon, hamdden a chelfyddydol i blant oed cynradd, 'Dysgu a Diod' (sesiwn sgwrsio newydd gyda'r nos i ddysgwyr) a nosweithiau Gigs Bach y Fro.






# PROFFIL IAITH GYMRAEG MENTER BRO MORGANNWG

**Mae gan Fro Morgannwg 13,189 o siaradwyr Cymraeg, sef 10.8% o'r boblogaeth**

Yn ystod y flwyddyn comisiynodd Menter Bro Morgannwg Nico (iaith) Cyf i greu Proffil Cymraeg newydd i Fro Morgannwg. Mae'r proffil yn archwilio safle'r iaith Gymraeg yn y Sir a sut mae siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu cymunedau.

Y nod oedd edrych ar gyd-destun yr iaith Gymraeg heddiw ac argymell ffyrdd o gynyddu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn y dyfodol. Bydd yr adroddiad yn cynorthwyo Menter Bro Morgannwg i gynllunio'n strategol a gweithredu fel partner dylanwadol wrth i sefydliadau wynebu diwallu'r gofynion statudol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn eu hardaloedd.

Mae'r proffil hwn yn seiliedig ar ystadegau Cyfrifiad 2011; Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 Llywodraeth Cymru; Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2015 Llywodraeth Cymru; Defnydd o'r Iaith Gymraeg yn yr Astudiaeth Ymchwil Cymunedol, Prifysgol Bangor 2015; gyda chyfeiriad hefyd at ganlyniadau arolwg a gynhaliwyd yn ardaloedd Mentrau yn Ne-Ddwyrain Cymru yn ystod Chwefror a Mawrth 2016, gyda 733 o ymatebion.

Mae'r casgliad y mae'r proffil hwn wedi'i greu yn cynnwys;

- Ystadegau allweddol o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal Y prif ofynion statudol sy'n' berthnasol i bartneriaid allweddol Menter
- Nifer o ddarganfyddiadau ymchwil ar batrymau defnydd o'r iaith Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg yn yr ardal
- Canlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith hwn sy'n amlygu profiadau siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg yn yr ardal

**Er bod darparu addysg cyfrwng Cymraeg ynddo'i hun yn rhan hollbwysig o'r ymdrech i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ystyrir bod y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn faes hanfodol er mwyn symud tuag at gymdeithas ddwyieithog**

**Yn ôl yr Arolwg Defnydd roedd bron i dri chwarter y gweithwyr yn y sector cyhoeddus o'r farn bod eu cyflogwr yn gefnogol i ddefnydd o'r Gymraeg o'i gymharu â 41% yn y sector preifat**

**"Mae'r Fenter wedi adnabod yr angen i sicrhau lle amlwg ym myd technoleg er mwyn hwyluso'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd"**

Mae'r negeseuon allweddol sy'n deillio o brofiadau siaradwyr Cymraeg, ynghyd â'r data ffurfiol, yn amlygu nifer o feysydd sydd angen mynd i'r afael â hwy, er enghraifft:

- Yr angen am fwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r ysgol ac ar ôl gadael ysgol (o hamdden i'r gweithle)
- Yr angen am fwy o brofiadau i godi hyder a defnydd o'r iaith ymysg dysgwyr a'r siaradwyr Cymraeg hynny nad oes ganddynt lawer o hyder, os o gwbl, i ddefnyddio'u Cymraeg mewn sefyllfaoedd newydd
- Yr angen i gyflogwyr gydnabod gwerth yr iaith i'w gweithleoedd, gan sicrhau cefnogaeth i siaradwyr Cymraeg
- Yr angen i sicrhau bod yr iaith yn fwy amlwg yn y gymuned er mwyn hyrwyddo defnydd ehangach – yr iaith lafar ac yn weledol

Er yn Fenter ifanc ar ei newydd wedd, mae gwaith Menter Bro Morgannwg yn seiliedig ar adnabyddiaeth dda o'i chymuned ac anghenion ei chymuned ac mae'n meddu ar greadigrwydd a hyblygrwydd o ran mynd i'r afael â'r anghenion hynny. Mae gallu gan y Fenter i ymateb yn arloesol i anghenion lleol drwy brosiectau â phartneriaid, gan brofi hyn gyda Gŵyl Fach y Fro ac ati.

Agwedd arall sydd yn dod i'r amlwg yng ngwaith y Fenter yw nid ymateb i dargedau Llywodraeth Cymru yn unig mae'n gwneud, ond mae'r gweithgareddau/gwasanaethau a ddarperir gan y Fenter hefyd yn cryfhau ac yn cyfoethogi'r hyn sy'n digwydd yn statudol ar lefel leol i hybu'r Gymraeg a chreu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

# GWYBODAETH ARIANNOL - CRYNODEB

**Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2016**

Mae'r ffigyrau canlynol wedi'u cymryd o ddatganiad ariannol llawn Menter Bro Morgannwg ar gyfer y flwyddyn a oedd yn dod i ben 31 Mawrth 2016, sydd wedi eu paratoi gan yr archwilwyr Watts Gregory LLP. Mae'r adroddiad llawn ar gael gan Menter Bro Morgannwg ar gais.

| INCWM | CYLLID ANGHYFYNGEDIG | CYLLID CYFYNGEDIG | CYFANSWM 2015/16 | CYFANSWM 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau a nawdd | 30,000 | 36,843 | 66,843 | 5,548 |
| Ffioedd gweithgareddau | 19,502 | - | 19,502 | 1,121 |
| **CYFANSWM INCWM** | **49,502** | **36,843** | **86,345** | **6,669** |
| **GWARIANT** | | | | |
| Llai: Gwariant ar gyflogau, gorbenion a gweinydduprosiect | 49,608 | 36,843 | 86,451 | 6,146 |
| **Incwm / (gwariant) net** | **(106)** | **0** | **(106)** | **523** |
| Treth ar weddillion (Tax on surplus) | - | - | - | (105) |
| Elw (Colled) am y flwyddyn (Surplus (deficit) for the financial year) | (106) | 0 | (106) | 418 |
| Dygwyd ymlaen (Brought forward) | 418 | - | 418 | - |
| Yn weddill (Reserves) | 312 | - | 312 | 418 |

**Menter Bro Morgannwg, 42 Lambourne Crescent,**
**Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd CF14 5GG**
**www.menterbromorgannwg.cymru / 029 20689888**
Cwmni Cyfyngedig drwy warant 8867706